

# GWASANAETH CYNHAEAF YN Y GOEDWIG LAW



**Thema:** bwyd, hawliau tir, cymuned, tlodi.

**Gwlad:** Brasil.

**Nod:** dathlu'r Cynhaeaf a meddwl am bwysigrwydd gwarchod y byd naturiol.

**Offer:**

- cneuen Brasil (yn ei chragen) - gwnewch yn siŵr nad oes gan neb alergedd i gnau
- torrwr cnau
- sioe sleidiau'r gwasanaeth
- mae gweithgareddau dosbarth sy'n cefnogi'r gwasanaeth hwn ar gael i'w lawr lwytho o [christianaid.org.uk/learn](http://christianaid.org.uk/learn)

**Deunydd ychwanegol:**

- Sioe sleidiau gwasanaeth *Cynhaeaf yn y goedwig law*
- Gweithgareddau dosbarth *Cynhaeaf yn y goedwig law*

## CYFLWYNIAD GWASANAETH

**Dangos sleid 1** a chroesawu'r myfyrwyr i'r gwasanaeth, yna dangoswch **sleid 2** a gofyn i'r myfyrwyr a allan nhw ddweud pa un o'r adeiladweithiau hyn sydd tua 50 metr o uchder a 1,000 o flynyddoedd oed.

Yr ateb yw'r goeden ar waelod ochr dde'r sleid. Y lleill yw:

- Cerflun Crist y Gwaredwr, sy'n 30 metr yn unig o daldra a llai na 100 mlwydd oed (codwyd ym 1931)
- Adeilad uchel y Gherkin, sy'n 180 metr o daldra ond yn llai na 10 mlwydd oed (codwyd yn 2004)
- Pyramid Mawr Giza sydd llawer talach, yn 138 metr, ac yn llawer iawn hŷn (codwyd 4,500 o flynyddoedd yn ôl, tua 2550 CC).

Ydy'r myfyrwyr yn gallu dweud pa rai ohonyn nhw sydd ym Mrasil? Dau yw'r ateb: cerflun Crist y Gwaredwr sydd i'w weld ar fynydd uchel uwchben dinas Rio de Janeiro a'r goeden, sef coeden cnau Brasil sy'n tyfu yng nghoedwig law yr Amazon.

### Dangos sleid 3

*Mae coedwig law yr Amazon yn enfawr, yn gorchuddio bron i ddwy ran o dair o wlad Brasil. Mae'n amgylchedd pwysig iawn, yn gartref i ystod eang ac amrywiol o fywyd gwyllt a phlanhigion. Yn ddwfn yn y goedwig mae'r planhigion a'r anifeiliaid yn byw mewn cydbwysedd bregus â'i gilydd. Does dim enghraifft well o hyn na'r goeden cneuen Brasil.*

Os oes gennych un o'r cnau hyn, gofynnwch i un o'r myfyrwyr ddod ymlaen i geisio torri'r gragen (heb wneud niwed iddyn nhw ei hunain!). Fyddan nhw ddim yn gallu gwneud hynny ac felly gallech ddarparu torrwr cnau.

*Os ydych o'r farn fod cnau Brasil yn anodd eu hagog, efallai y synnech chi wybod eu bod nhw'n tyfu mewn coden sydd hyd yn oed yn fwy anodd ei hollti.*

**Dangoswch sleid 4** i weld a yw'r myfyrwyr yn gallu adnabod y llun sy'n dangos coden cneuen Brasil. Yr ateb yw'r llun isaf ar y dde. Cnau mwnci (y llun uchaf ar y dde) a chnau cashew (ar y chwith) yw'r lleill.

### Dangos sleid 5

*Er mwyn i'r coed cnau Brasil dyfu rhaid hollti'r codennau i'w hagog ac wedyn plannu'r hadau, sef y cnau, yn y ddaear. Sut ydych chi'n meddwl mae hyn yn digwydd, yn ddwfn yng nghoedwig law yr Amazon?*

### Dangos sleid 6

*Mae'r ateb gan anifail bychan o'r enw agouti. Mae ganddo ddannedd miniog iawn a dyma'r unig anifail – ar wahân i bobl – sy'n gallu hollti'r gragen galed i gyrraedd at y gneuen Brasil flasus oddi mewn.*

### Dangos sleid 7

*Mae'r agouti yn hoff iawn o gnau Brasil! Maen nhw'n eu hoffi cymaint nes eu bod nhw'n eu storio yn y pridd er mwyn eu bwyta rywdro eto. Ond, gan eu bod braidd yn anghofus, maen nhw weithiau yn methu cofio ymhle y claddon nhw'r cnau a bydd y cnau yna'n tyfu'n goed cnau Brasil.*

### Dangos sleid 8

*Heb yr agouti i blannu eu hadau, gall coed cnau Brasil ddim cynhyrchu rhagor o goed yn y gwyllt. A dim ond yn y gwyllt gall coed cnau Brasil dyfu – nid yw'n bosibl eu ffermio nhw – oherwydd er mwyn cynhyrchu'r codennau hadau yn y lle cyntaf, maen nhw'n ddibynnol ar gael eu peillio gan wenylen arbennig. Mae'r tegeirian gwenynog (orchid bee) i'w weld yn unig ble mae blodyn arbennig a elwir y tegeirian yn tyfu, ac mae tegeirian yn tyfu orau yn y goedwig law. Felly mae'r coed angen y gwenyn, sydd angen y tegeirian, sydd angen amgylchedd y goedwig law i ffynnu.*

**Dangos sleid 9**

*Mae'r berthynas arbennig rhwng pedwar creadur o fath gwahanol – y goeden, yr agouti, y tegeirian a'r tegeirian wenynog – yn enghraifft ryfeddol o gylchred bywyd ac yn ein hatgoffa o gydbwysedd bregus byd natur.*

**Dangos sleid 10**

*Mae'n bwysig cofio ein bod ni i gyd yn byw o fewn y cydbwysedd bregus hwn, er bod ein bywydau ni'n ymddangos fel petai ymhell iawn ar brydiau o'r byd naturiol. Mae coedwig law yr Amazon yn lle pwysig, nid yn unig i'r coed sy'n tyfu a'r anifeiliaid sy'n byw yno ond i'r holl blaned. Gelwir y goedwig ambell dro yn 'ysgyfaint y blaned'. Mae'r goedwig law yn gartref i sawl biliwn o goed sy'n amsugno carbon deuocsid o'r amgylchedd a chynhyrchu ocsigen yn ei le, a thrwy hynny'n helpu arafu cyfradd y newid hinsawdd.*

**Dangos sleid 11**

*Mae'r amgylchedd pwysig hwn dan fygythiad oddi wrth gwmnïau mawrion sy'n awyddus i wneud arian o'r adnoddau gwerthfawr sydd ar gael yn y goedwig trwy gynaeafu'r coed gwerthfawr o'r goedwig, y mwynau o'r ddaear a'r pysgod o'r afonydd. Mae torri'r coed a chlirio'r goedwig yn effeithio'n drychinebus ar y rhywogaethau sy'n tyfu yno, llawer ohonyn nhw ond yn gallu byw yn y goedwig law. Yn ogystal â hyn, mae yna effaith ddifrifol ar yr amgylchedd byd-eang. Mae'r dinistriol byd-eang ar goedwigoedd yn gyfrifol am hyd at bumed ran o allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd – mwy na phob awyren, car, lori, llong a thrên sydd ar wyneb y ddaear i gyd gyda'i gilydd.*

**Dangos sleid 12**

*Yn ffodus, mae rhai o drigolion y goedwig law yn ymladd yn ôl er mwyn amddiffyn yr amgylchedd gwerthfawr hwn. Mae pobl y quilombola wedi byw yn y goedwig law am gannoedd o flynyddoedd. Caethweision oedd eu cyndadau a ddihangodd i'r goedwig i guddio. Cawsant wybod gan y brodorion oedd yn byw yno'n barod sut i oroesi yn y goedwig. Fel trigolion eraill y goedwig law, mae'r quilombola wedi dysgu sut i fyw mewn cytgord â'r goedwig, gan ei defnyddio fel cartref a ffynhonnell eu bwyd tra eu bod yn ei gwarchod yr un pryd.*

**Dangos sleid 13**

*Wyth oed yw Dielem Viana Printes a bu'n byw yn y goedwig gydol ei hoes. Am eu bod ymhell iawn o unrhyw siop, mae Dielem a gweddill cymuned y quilombola yn cynaeafu bron eu holl fwyd o'r goedwig. Nid dim ond yr agouti sy'n hoff o gnau Brasil; mae Dielem hefyd yn hoff iawn ohonyn nhw! Maen nhw'n rhan bwysig iawn o'i diet hi am eu bod yn llawn brasterau a phroteinau angenrheidiol. Mae Dielem yn ymfalchïo ei bod hithau hefyd, fel yr agouti, yn gallu hollti'r gragen galed â'i dannedd!*

**Dangos sleid 14**

*Mewn sawl ffordd, mae Dielem yn debyg i unrhyw un ohonoch chi. Mae hi'n treulio'r rhan fwyaf o'i dyddiau yn yr ysgol ac ar ôl cyrraedd adre, mae am newid ar unwaith o'i gwisg ysgol er mwyn cael mynd i chwarae gyda'i brodyr. Mae hi'n hoff o nofio a thynnu llun a'i hoff liwiau hi yw coch a phinc.*

**Dangos sleid 15**

*Onid mae yna rai gwahaniaethau rhwng ei bywyd hi a'ch bywyd chi. Cwch yw'r bws sy'n ei chario ar hyd afon trwy'r goedwig law i'r ysgol leol.*

**Dangos sleid 16**

*Pan fydd hi'n mynd i nofio ar ôl oriau ysgol, rhaid iddi gadw llygad am grocodeil yn yr afon. Ac unwaith y flwyddyn, mae hi a gweddill ei phentref yn teithio'n ddwfn i'r goedwig law i gynaeafu'r cnau Brasil gwerthfawr.*

**Dangos sleid 17**

*Mae Dielem a'i chymuned yn deall ac yn parchu cydbwysedd bregus y goedwig. Mae'r coed cnau Brasil mor bwysig yn niwylliant y quilombola fel bod gan sawl un o'r coed enwau, fel pobl. Dywed Domingos, tad Dielem, 'Mae gan y tir arwyddocâd arbennig i ni...rydym yn galw'r tir "mam". Mae gennym hen gân ac mae'r gerddoriaeth yn dweud: "y tir yw ein mam a rhaid i ni ofalu amdani".'*

**Dangos sleid 18**

*Mae Dielem a'i chymuned yn gwneud gwaith pwysig iawn. Trwy fyw yn y goedwig a gofalu amdani, maen nhw'n helpu i warchod yr amgylchedd rhyfeddol hwn rhag cwmnïau mawr fyddai'n hoffi torri'r coed a defnyddio'r pren a chloddio'r ddaear i gasglu mwynau gwerthfawr. Mae cymunedau'r goedwig law yn cael cefnogaeth gan un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, CPI: mudiad sy'n eu helpu i sefyll dros eu hawliau perchnogaeth ar y cyd o'u tiroedd yn y goedwig a gwrthwynebu'r cwmnïau mawr.*

*Yn ogystal â helpu'r gymuned i wrthsefyll y cwmnïau mawrion, mae'r mudiad CPI hefyd yn eu helpu i ddod o hyd i arian er mwyn sefydlu ffatri fechan ble byddan nhw'n gallu defnyddio peiriannau i hollti cregyn caled y cnau Brasil. Bydd hyn yn golygu y byddan nhw'n gallu gwerthu mwy o gnau a gwneud mwy o arian o'u cynhaeaf er mwyn iddyn nhw allu fforddio prynu pethau pwysig fel meddyginiaethau, dillad a mathau o fwyd nad ydyn nhw'n gallu tyfu neu eu casglu o'r goedwig.*

*Dangoswch gneuen Brasil a dangos sleid 19. Mae'n anhygoel meddwl fod y gneuen hon wedi tyfu yn y goedwig law; bod y goeden lle tyfodd hon wedi'i phlannu, mwy na thebyg, gan un o'r agouti a'i pheillio gan degeirian wenynog; fod pobl fel Dielem a'i theulu efallai wedi cerdded yn ddwfn i'r goedwig i gasglu'r gneuen hon.*

## MYFYRDOD

---

Mae dal y gneuen hon yn fy llaw yn f'atgoffa o gydbwysedd bregus byd natur sy'n ein dwylo ni i gyd. Mae pobl y quilombola yn ysbrydoliaeth. Gadewch i ni gofio eu dywediad: 'Y tir yw ein mam', a gadewch i ni sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i barchu ein hamgylchedd ninnau gymaint ag y maen nhw.

## GWEITHREDU PELLACH

---

- Gallwch lawr lwytho gweithgareddau dosbarth uwchradd, *Cynhaef yn y goedwig law* o'r wefan [christianaid.org.uk/learn](http://christianaid.org.uk/learn)
- Gall eich ysgol helpu i godi arian i gefnogi gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol. Am fwy o wybodaeth ewch i [christianaid.org.uk/harvest](http://christianaid.org.uk/harvest)